# Pwyllgor Adnoddau Dynol

## 23 Tachwedd 2022

Yn Bresennol (yn bersonol)
Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Cynghorydd Mrs D Clements, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Mr GA Jones, Cynghorydd R Jordan a'r Cynghorydd PJ Morgan.

Yn Bresennol (o bell)
Cynghorydd A Wilcox.

[Ymunodd y Cynghorydd SL Hancock â'r cyfarfod o bell adeg ystyried eitem 7, Metrigau AD.]

(Oriel y Parc, Tyddewi ac yn Rhithiol: 12.45 pm – 2.30 pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Nid oedd unrhyw ymddiheuriad am fod yn absennol.

**2. Datgan Buddiannau**
Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022 ac ar 27 Gorffennaf 2022 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**Penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022 ac ar 27 Gorffennaf 2022.

**4. Materion yn Codi**
a) Ailstrwythuro (Cofnod 6b) Pwyllgor Adnoddau Dynol 29 Mehefin)
Dywedodd un Aelod y byddai'n ddefnyddiol iddi dderbyn copïau o'r cylchlythyr staff, yn yr un modd ag yr oedd wedi'i wneud yn ystod y cyfnod clo. Cytunodd y Prif Weithredwr i anfon y cylchlythyr at yr Aelodau o hyn ymlaen.

Cafwyd peth trafodaeth hefyd ynghylch cais yr Aelodau am broffilio costau'r strwythur staff yn y tymor canolig i'r tymor hir i sicrhau bod y costau yn parhau i fod yn fforddiadwy. Cytunodd y Rheolwr Adnoddau Dynol i ddarparu'r costau staff cyn ac ar ôl yr ailstrwythuro, gan nodi pa swyddi nad oedd yn derbyn cyllid craidd. Byddai'r costau hyn yn cael ei ddarparu cyn yr adolygiad o'r cyflogau a graddfeydd. Ychwanegodd y Prif Weithredwr mai'r bwriad oedd cynnal gweithdy pellach ar y gyllideb ar yr 21ain o Ragfyr, ac erbyn hynny y gobaith oedd y byddai Llywodraeth Cymru wedi rhoi syniad iddynt o swm y Grant Parc Cenedlaethol y flwyddyn nesaf.

**Cytunwyd:**
**a) bod copi o'r cylchlythyr staff i'w ddosbarthu i'r Aelodau;**
**b) y byddai'r costau staff cyn ac ar ôl yr ailstrwythuro ar gael i'r Aelodau cyn y Gweithdy ar y Gyllideb ar yr 21ain o Ragfyr.**

b) Adroddiad Rheoli AD – Metrigau AD Mai 2022 (Cofnod 7f) 29 Mehefin)
Nodwyd nad oedd ffigurau canrannau mewn perthynas â chyfraddau absenoldeb wedi'u cynnwys yn yr adroddiad gerbron y Pwyllgor.

**Gofynnwyd** am i nodyn o gamau gweithredu gael ei wneud yn y dyfodol i gynorthwyo'r swyddogion.

**5. Cofnodion y Panel Recriwtio Cyfarwyddwr**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022 ac ar 8 Awst 2022 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

O ran cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 27ain o Orffennaf, gofynnodd Dr. R Heath-Davies am gywiriad i'r cofnodion i gofnodi ei bod yn bresennol yn y cyfarfod, ond ei bod wedi gadael yn gynnar oherwydd ymrwymiadau eraill.

**Penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022 ac ar 8 Awst 2022 yn amodol ar y newid uchod.

**6. Fforwm Gweithwyr – adroddiad y cyfarfod**
Cyflwynwyd adroddiad ar gyfarfod y Fforwm Gweithwyr a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022 i'w ystyried.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r adroddiad ar gyfarfod y Fforwm Gweithwyr a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022.

[Ymunodd y Cynghorydd S Hancock â'r cyfarfod o bell adeg ystyried yr eitem ganlynol.]

**7. Metrigau Adnoddau Dynol**
Cyflwynwyd ystadegau ar nifer o Fetrigau Adnoddau Dynol, a rhoddwyd esboniad pellach mewn perthynas â rhai o'r ystadegau hyn fel a ganlyn. Ymddiheurwyd bod y papurau hyn wedi'u hargraffu mewn du a gwyn.

a) Staff sy'n ymuno ac yn gadael – dywedodd un Aelod bod niferoedd y rhai a adawodd yn ystod mis Awst a mis Medi yn ymddangos yn uchel. Dywedodd y Rheolwr AD bod y ffigurau misol uwch na'r cyfartaledd yn cynnwys y dyddiadau yr oedd contractau tymhorol a thymor penodol yn dod i ben. Byddai'r rhesymau dros adael yn cael eu cyflwyno yn yr

adroddiad i'r cyfarfod nesaf. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod cyfradd yr Awdurdod o gadw staff yn gyffredinol yn uchel.

b) Dosbarthiad Oedran – dywedwyd bod yr Awdurdod yn ymchwilio i ffyrdd o liniaru gweithlu sy'n heneiddio, gan gynnwys rhaglen hyfforddi gweithwyr, oedd wedi gweld peth llwyddiant yn yr adran Rheoli Datblygu a'r adran Adnoddau Dynol. Roedd y gwaith cychwynnol wedi dechrau ar raglen fwy strwythuredig, a'r gobaith oedd treialu'r rhaglen hon drwy'r Tîm Wardeniaid, ac y byddai adroddiad pellach ar hyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol, pe bai hyn yn cael ei gytuno fel rhan o ailstrwythuro'r adran Rheoli Cefn Gwlad. Awgrymodd un Aelod y gallai fod mantais mewn cynnig y cyfle i ddatblygu gyrfa ar draws y tri APC yng Nghymru. Dywedodd y Rheolwr AD y byddai'n archwilio'r opsiwn hwn.

c) Cyfraddau Absenoldeb – gan ymddiheuro am beidio â chyflwyno'r cyfraddau canrannol yn yr adroddiad, dywedodd y Rheolwr Adnoddau Dynol bod cyfradd yr Awdurdod yn 2.1% oedd yn is na chyfradd y Swyddfa Ystadegau Gwladol o 2.2%, a hefyd cyfradd y sector cyhoeddus o 3%. Y rheswm mwyaf cyffredin am absenoldeb oedd Covid. Gofynnodd Aelod am feincnodi yn erbyn Parciau Cenedlaethol eraill Cymru, a dywedwyd wrtho bod gan y tri parc weithlu sylweddol wahanol, fodd bynnag byddai rhai cymariaethau yn bosibl.

d) Dosbarthiad Ethnigrwydd – Eglurodd y Rheolwr AD nad oedd cyfran fawr o'r staff wedi datgan eu hethnigrwydd, ac y byddai'r staff yn cael eu hatgoffa am bwysigrwydd rhoi gwybodaeth. Nid oedd yn credu bod unrhyw aelod o staff wedi nodi eu hunain yn y dosbarth Du a Lleiafrifoedd Ethnig. Roedd hyn yn cymharu â 1.3% yn Sir Benfro gyfan.

e) Crynodeb o'r Dosbarthiad Cyflogau a Graddfeydd – Nodwyd gwall teipio yn yr uchafswm cyflog ar gyfer graddfa 3. Dywedwyd bod y setliad cyflog wedi'i gyfleu i'r staff, ac y byddai'r argymhelliad ynglŷn â'r nifer uwch o ddiwrnodau gwyliau, oedd yn rhan o'r setliad, yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Arwain yn ddiweddarach yn y mis. Dywedodd y Prif Weithredwr, gan fod gan yr Awdurdod gyfran uwch o staff ar raddfeydd 1-3 (oherwydd bod yr Awdurdod yn rhedeg tair canolfan ymwelwyr), bod y setliad cyflogau yn ddiweddar wedi cael mwy o effaith o gymharu â'r ddau Barc Cenedlaethol arall yng Nghymru.

f) Iechyd a Diogelwch – dywedwyd y byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol ar gydymffurfio â rheolau Iechyd a Diogelwch ac ar hyfforddiant mewn adroddiadau yn y dyfodol, gan fod rhywfaint o orgyffwrdd yn hyn o beth â chylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol. Awgrymwyd bod angen hyfforddiant i'r Aelodau ar iechyd a lles.

**Nodwyd. Cytunwyd y byddai ystadegau ychwanegol yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol ar y rhesymau bod staff yn gadael, ar y cyfraddau absenoldeb canrannol, ac ar Iechyd a**

**Diogelwch. Nodwyd hefyd y byddai meincnodi yn erbyn Parciau Cenedlaethol eraill yn cael ei archwilio.**

**8. Adolygiad o'r Cyflogau a Graddfeydd**

Gan ymddiheuro am hyd yr adroddiad, eglurodd y Rheolwr AD ei fod wedi cynnwys gwybodaeth gefndir ychwanegol er budd Aelodau newydd y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn nodi'n fanwl y gwaith a raglennwyd ar gyfer tri cham yr adolygiad, ac yn amlinellu'r gwaith a wnaed hyd yn hyn.

Ychwanegodd, yn seiliedig ar adborth y staff o'r ailstrwythuro yn ddiweddar, bod y staff o'r farn nad oedd yr Aelodau wedi cael eu cynnwys yn ddigonol ac nid cymaint ag y byddai'r staff wedi'i ddymuno. Dywedodd y Rheolwr AD, oherwydd pryder y staff ynghylch cyflogau yn ystod yr ymgynghori ar yr ailstrwythuro, ei fod yn argymell mai'r Pwyllgor Adnoddau Dynol fyddai'n cymeradwyo yn derfynol unrhyw newidiadau i'r cyflogau a graddfeydd.

Nid oedd yr Aelodau yn gwbl gyfforddus â'r dull a argymhellwyd, ac yn barnu, heb ddealltwriaeth ddyfnach o'r fframwaith gwerthuso, na ddylent barhau yn ddiduedd. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am fwy o eglurder ynghylch y modd y byddai'r broses apelio yn gweithio. Awgrymwyd y dylid cyflwyno amlinelliad o rôl y Pwyllgor yn y broses adolygu, yn ogystal â'r broses apelio, ac y gellid trafod y rhain mewn gweithdy fyddai'n dilyn y gweithdy ar y gyllideb ar yr 21ain o Ragfyr. Eglurwyd na fyddai'r Polisi Cyflogau a Graddfeydd ar gael tan yn ddiweddarach yn y broses, ond y byddai'r broses ddrafft o apelio yn cael ei chyflwyno i'r Aelodau cyn hynny.

**Cytunwyd** y byddai gwybodaeth ychwanegol fel y nodir uchod yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor ynglŷn â'r adolygiad o gyflogau a graddfeydd cyn y Gweithdy Adnoddau Dynol ar 21 Rhagfyr.

**9. Eithrio'r Cyhoedd**

**Penderfynwyd** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.

[Ymddiheurodd y Cynghorydd R Jordan a Mrs J James bod yn rhaid iddynt adael y cyfarfod cyn i'r drafodaeth ar yr eitem ganlynol ddod i ben, fodd bynnag roeddent yn bresennol ar gyfer y bleidlais.]

**10. Ailstrwythuro'r Sefydliad**

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar y camau a gymerwyd o ran ailstrwythuro'r sefydliad, ac yn amlinellu'r penodiadau newydd a wnaed hyd yn hyn. Darparwyd y strwythur terfynol, yn dilyn yr Adolygiad Gweinyddiaeth, a gofynnwyd i'r Aelodau gytuno i hyn gael ei weithredu'n llawn erbyn 1 Ebrill 2023, er y nodwyd y byddai rhai elfennau o'r strwythur newydd yn cael eu gweithredu o 1 Ionawr 2023 i roi cyfnod

pontio pan ellid cysoni cyllidebau, prosesau busnes a ffyrdd newydd o weithio. Cytunodd yr Aelodau bod gweithredu'r strwythur newydd yn brydlon yn bwysig er mwyn sicrhau eglurder i bawb dan sylw, a gofynnwyd a ellid darparu fersiwn electronig o'r strwythur iddynt gan nad oedd y ddogfen a dderbyniwyd ganddynt yn hawdd i'w llywio.
Dywedodd y Rheolwr AD y byddai'n ceisio rhoi mynediad llawn i'r Aelodau i'r system Cezanne AD fel y gallent lywio'r siart trefniadaeth yn electronig. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai gweithredu'r ailstrwythuro yn rhannol fyddai'n digwydd ar 3 Ionawr 2023 a gweithredu'n llawn ar 1 Ebrill 2023; byddai hyn yn cyd-ddigwydd â'r flwyddyn ariannol newydd. Dywedwyd y byddai gwaith yn cael ei wneud rhwng Ionawr a diwedd Mawrth i ddatblygu'r Cynlluniau Cyflawni, sy'n ategu'r strategaeth newydd.

**Penderfynwyd**:

a) cytuno ar strwythur yr Adran Creu Lleoedd, i gynnwys Rheolwr Rheoli Datblygu a Rheolwr Polisi Cynllunio;
b) cytuno ar y strwythur sy'n weddill fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad, gan gynnwys ailosod pob swydd weinyddol yn strwythurau'r adrannau neu gyfarwyddiaeth.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023 heb eu diwygio. |